TV LICENSING

www.tvlicensing.co.uk

InBrief

Gaeaf 2015

2 Helo oddi wrth Trwyddedu Teledu, Cyngor i bobl sy'n symud cartref a phobl dros 75 oed

3 Trwyddedu Teledu ar daith:

iSight Cornwall

4 Holi Trwyddedu Teledu

Trwyddedu Teledu yn galw am ddod ag ymosodiadau ar swyddogion i ben

Fe wnaeth y Swyddog Ymholiadau, Charlene Boucher, adrodd ei stori ar BBC Radio 5Live ym mis Tachwedd

Fel rhan o Fis Gwrthfwlio ym mis Tachwedd, lansiodd Trwyddedu Teledu ymgyrch i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o ymosodiadau llafar a chorfforol ar ei swyddogion ymholiadau sy'n ymweld ag eiddo heb drwydded.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dioddefodd 89 o swyddogion ymholiadau ymosodiadau corfforol gan aelodau o'r cyhoedd. Mae hyn yn gynnydd ar y 37 o ymosodiadau yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd yn cynnwys achosion lle gorfu i staff fynd i'r ysbyty am driniaeth.

Mae llawer o swyddogion wedi cael negeseuon yn bygwth eu lladd ar ôl cnocio ar ddrysau, ac mae rhai eraill wedi cael eu taro neu mae pobl wedi poeri atynt. Mae rhai ohonynt wedi cael eu ffilmio wrth gael eu cam-drin, a'r clipiau'n cael eu rhoi ar YouTube.

Dywedodd Colin Jones, Cyfarwyddwr Gwaith Maes Trwyddedu Teledu:

"Mae'r bygythiadau y gall ein swyddogion eu hwynebu. wrth geisio cyflawni eu rôl, yn hollol annerbyniol. Ymddengys fod y rheiny sy'n ymosod arnynt yn anghofio mai pobl ydyn nhw.

"Maen nhw'n gwneud gwaith gwych, yn parhau'n broffesiynol ac yn gwrtais mewn amgylchiadau heriol iawn weithiau, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cynorthwyo nhw. Mae hyn yn cynnwys adrodd am fygythiadau a chamdriniaeth ddifrifol i'r heddlu."

Fe wnaeth Heddlu'r Alban, Licensed Taxi Federation, Cyngor Dinas Lerpwl, Heddlu Caint, Scottish Taxi Federation, NIIRTA (Cymdeithas Masnachu Annibynnol Gogledd Iwerddon) a Hospitality Ulster gefnogi'r ymgyrch.

I ddarganfod mwy, cliciwch yma

Rob Delaney yn cefnogi ymgyrch Trwyddedu Teledu i ddod â cham-drin gweithwyr i ben

Yn ddiweddar, fe wnaeth yr actor a'r digrifwr, Rob Delaney, helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gamdriniaeth lafar a chorfforol y mae staff Trwyddedu Teledu yn ei dioddef.

Gweithiodd Delaney, sy'n fwyaf adnabyddus fel seren y gyfres deledu, 'Catastrophe', ar Channel 4, gyda swyddogion Trwyddedu Teledu yn gynharach yn y flwyddyn, trwy gynnal gweithdy i roi cyngor ar sut i fynd i'r afael â chwsmeriaid ymosodol ac anghwrtais.

Wrth fynd trwy senarios heriol y mae Swyddogion Ymholiadau yn eu hwynebu, cynigiodd atebion doniol a mewnweledol i fynd i'r afael â rhegi, cam-drin ac ymddygiad anodd.

Mae'r senarios didwyll hyn wedi cael eu cynnwys mewn fideo newydd y gallwch ei wylio ar s sianel YouTube Trwyddedu

Helo oddi wrth Trwyddedu

Ers ein rhifyn diwethaf, efallai eich bod chi wedi sylwi bod llawer o sylw wedi bod yn y wasg ynghylch dyfodol y drwydded deledu yng nghyd-destun Adolygiad Siarter y BBC sydd ar ddigwydd.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd y BBC yn cymryd cyfrifoldeb dros y consesiwn ar gyfer pobl dros 75 oed o 2018/19. Mae ein cyngor presennol ynghylch y consesiwn hwn yn parhau'r un peth, sef bod gan unrhyw un 75 oed a hŷn (neu unrhyw un sy'n byw gyda rhywun dros 75 oed) hawl i drwydded deledu rad ac am ddim ar gyfer eu prif gyfeiriad. Rydym yn gweithio gyda siopau Age UK ledled y wlad y mis hwn i amlygu'r consesiwn (gweler yr erthygl isod i gael mwy o wybodaeth).

Cyhoeddwyd adolygiad annibynnol y Llywodraeth ar orfodi'r drwydded deledu (Adolygiad Perry) dros yr haf hefyd. Daeth David Perry QC, a arweiniodd yr Adolygiad, i'r casgliad na ddylai osgoi talu ffi'r drwydded gael ei ddad-droseddoli a bod y system bresennol yn deg, yn gymesur ac yn darparu gwerth da i dalwyr ffi'r drwydded a threthdalwyr.

Ceir rhestr lawn o argymhellion yr Adolygiad yma. Rydym wedi cysylltu â rhai o'r sefydliadau a ysgrifennodd ymatebion ymgynghori i'r Adolygiad, gan gynnwys Money Advice Trust a Christians Against Poverty, ynghylch cynlluniau talu syml a hyblyg ar gyfer y rheiny sy'n ei chael hi'n anodd talu ffi'r drwydded. Gallwch ddarllen ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad yma. Bydd y mater o ddad-droseddoli nawr yn cael ei ystyried fel rhan o broses Adolygu'r Siarter. Rhowch wybod i mi os oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ynghylch y pwnc hwn y gallwch eu hystyried fel rhan o'r trafodaethau hynny.

Yn rhanbarthol, rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o grwpiau yn darparu cymorth a chyngor gwerthfawr yn eu cymunedau, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth yng Ngogledd Iwerddon, Cymdeithas

Lles Pobl Hŷn Glasgow yn yr Alban, a'r Fforwm Cyngor ar Arian yn Ipswich, i enwi rhai yn unig.

Os ydych chi o'r farn y gallai eich sefydliad elwa ar weithio gyda ni, cysylltwch â mi ar campaignoffice@tvlicensing.co.uk i gael mwy o wybodaeth.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau'r rhifyn hwn o InBrief. Cysylltwch â ni os oes gennych chi unrhyw adborth neu awgrymiadau ar gyfer y cylchlythyr nesaf.

Mwynhewch dymor y Nadolig

Dymuniadau gorau,

Dan Higgins, Golygydd, InBrief

Trwyddedu Teledu yn atgoffa pobl dros 75 oed i hawlio trwydded deledu rad ac am ddim

Oeddech chi'n gwybod y gall eich cleientiaid fod yn gymwys i gael trwydded deledu rad ac am ddim os ydynt dros 75 oed? Gall y rheiny sy'n gymwys gwneud cais ar-lein ar tvlicensing.co.uk/over75info neu drwy ffonio 0300 790 6073. Hefyd, os ydych yn byw gyda rhywun sydd dros 74 oed, bydd eu trwydded rad ac am ddim yn cynnwys yr holl offer yn yr eiddo, sy'n golygu y gallech chi elwa hefyd, beth bynnag yw eich oedran.



Mae Trwyddedu Teledu wedi bod yn gweithio gyda grwpiau cynghori ar gyfer pobl hŷn ledled y DU i wneud yn siŵr bod unrhyw un sy'n gymwys yn ymwybodol o'r drwydded deledu rhd ac am ddim i bobl dros 75 oed.

Dywedodd Caroline Abrahams, Cyfarwyddwr Elusen Age UK: "Byddem yn annog unrhyw un 75 oed a hŷn i wneud cais am eu trwydded deledu rad ac am ddim, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Mae gwneud cais yn hawdd a bydd Trwyddedu Teledu yn adnewyddu eich trwydded fel mater o drefn am dair blynedd, ar ôl i chi wneud cais, sy'n lleihau'r angen am waith papur."

Cynghori pobl sy'n symud cartref? Gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n diweddaru eu trwydded

Datgelwyd mewn arolwg bod un o bob 10 o bobl sy'n symud cartref yn anghofio hysbysu Trwyddedu Teledu am eu cyfeiriad newydd.

Yn ogystal â methu â chysylltu â Trwyddedu Teledu, mae rhai pobl sy'n symud cartref yn gadael llestri, dillad budr a'u hanifeiliaid anwes hyd yn oed ar ôl.

Mae Trwyddedu Teledu yn cysylltu â phobl sy'n symud cartref a rhentwyr yn rheolaidd i sicrhau eu bod nhw'n diweddaru eu manylion, p'un ai eu bod nhw'n symud i mewn neu'n symud allan. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Trwyddedu Teledu wedi helpu dros 1.6 miliwn o bobl sydd wedi symud cartref yn y DU i drosglwyddo eu trwydded deledu o'u hen gyfeiriad i'w preswylfa newydd. Gallwch newid manylion hyd at dri mis cyn symud, naill ai ar-lein ar tvlicensing.co.uk/moving neu drwy ffonio 0300 790 6112.

Trwyddedu Teledu ar daith

Mae Trwyddedu Teledu yn gweithio'n agos â sefydliadau cymunedol ledled y DU. Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar iSight Cornwall. Mae InBrief yn siarad â'r Prif Weithredwr, Terri Rosnau-Ward. Mae'r elusen yn helpu'r gymuned ddall yn ne-orllewin Lloegr.

C1. Yn gryno, pa wasanaethau y mae iSight Cornwall yn eu cynnig?

Ni yw'r ganolfan adnoddau gyntaf yng Nghernyw ac Ynysoedd Scilly ar gyfer pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan golli eu golwg, beth bynnag yw eu hoedran, eu hamgylchiadau neu eu cyflwr. Rydym yn frwdfrydig iawn dros helpu unrhyw un sydd wedi colli eu golwg, ac rydym wedi gwneud hynny ers ein sefydlu ym 1856, pan oedd yr elusen yn cynorthwyo glowyr yng Nghernyw.

Heddiw, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ar gyfer pobl o bob oed a'n bwriad yw cynorthwyo pawb sydd wedi colli eu golwg i arwain bywydau bywiog ac annibynnol. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys cyngor arbenigol ar olwg gwan a chymhorthion, asesiadau technoleg gynorthwyol a'i gosod, hyfforddiant ymwybyddiaeth o golli golwg, cyngor ar fudd-daliadau, cymorth siarad, desgiau gwybodaeth mewn ysbytai, gwyliau a gwibdeithiau, a chlybiau a gweithgareddau. Yn bwysig iawn, rydym yn gweithio gyda'n cleientiaid i helpu gyda'u hanghenion unigol.

C2. Beth yw eich rôl a beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Fel Prif Weithredwr, mae fy rôl yn ymarferol a gweithredol iawn. Rwyf mewn cyswllt uniongyrchol a dyddiol gyda'r holl staff a'r cleientiaid sy'n ymweld â'r swyddfa. Rydym yn dîm bach ac rwy'n teimlo'n ffodus fy mod yn gallu bod yn rheolwr llinell a chefnogi fy nhîm.

Yr hyn rwy'n ei fwynhau fwyaf am fy swydd yw fy mod yn gallu cynnig cyngor yn sgil fy mhrofiad personol fy hun, gan fy mod wedi colli fy ngolwg. Pan mae rhywun wedi dod i delerau â'r newyddion bod ganddynt nam ar eu golwg, mae'n werth chweil gallu cynnig cysur ac addewid y bydd bywyd yn gweithio allan yn iawn. Credwch fi, dysgais y ffordd galed, ac rwy'n hoffi rhoi awgrymiadau a ffyrdd cyflym o wneud pethau i wella bywyd bob dydd.

C3. Beth yw'r materion cyffredin y mae eich cleientiaid yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd?

Problem gyffredin ymhlith cleientiaid yw y gallan nhw deimlo'n unig yn aml. Mae angen mwy o glybiau a gweithgareddau lleol arnynt yn eu hardal, hefyd, mae trafnidiaeth i fynd i leoedd bob amser yn broblem. Gallwn drefnu gyrwyr gwirfoddol i gynorthwyo ein cleientiaid i gyrraedd apwyntiadau meddygol, ond mae angen cymorth ar y rhan fwyaf ohonynt i fynd allan o gwmpas y lle.

Yn aml, rydym o'r farn mai ein problem fwyaf yw nad yw pawb sydd wedi colli eu golwg yn gwybod beth sydd ar gael iddyn nhw nac ein bod ni yma i helpu.

C4. Dywedwch wrthym am ymgyrch neu brosiect diweddar yr ydych wedi gweithio arnynt – pam yr oedd mor llwyddiannus?

Ymgyrch ddiweddar yr ydym wedi gweithio arni yw ein Desg Wybodaeth mewn Ysbyty yn Royal Cornwall Hospital (Treliske). Cynhaliom ddesg ysbyty gwirfoddol pwrpasol yn yr adran offthalmoleg, lle mae dros 30,000 o bobl yn ymweld â saith ymgynghorydd blaenllaw bob blwyddyn. Diben ein hymgyrch yw cysylltu â'r 30,000 o bobl hyn.

Rydym wedi buddsoddi mewn ail-frandio ein desg, hysbysebu ar gefn cardiau apwyntiadau, a gosod hysbysebion yng nghylchgrawn yr ysbyty. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi ysgrifennu at yr holl optegwyr a meddygon yn y sir. Rydym ni eisoes yn gweld cynnydd mewn cyfeiriadau ac ymholiadau.

C5. Beth yw buddion sefydliadau'n ffurfio partneriaethau gyda Trwyddedu Teledu?

Rydym yn falch iawn o'n partneriaeth gyda Trwyddedu Teledu. Mae'r teledu ac adloniant cartref clyweledol yn rhan bwysig o fywyd bob dydd rhywun sydd wedi colli ei olwg. Mae teledu yn gwmni ac yn sŵn, mae'n gyfeillgarwch a chynhwysiant, mae'n gymaint o bethau.

Mae'n hanfodol bwysig ein bod ni'n ymgyrchu ar ran ein cleientiaid i'w helpu nhw gydag arbedion costau a buddion y gall Trwyddedu Teledu eu cynnig. Gallwn weithredu fel rhywle i gyfeirio unrhyw un sydd wedi colli eu golwg ar ran Trwyddedu Teledu ac mae gennym gopïau o wybodaeth Trwyddedu Teledu ar ffurf Braille ar gyfer unrhyw un sydd ei hangen yn y fformat hwn.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag iSight Cornwall ar

01872 261110 neu

info@isightcornwall.org.uk

Holi Trwyddedu Teledu

Mae Tîm Cysylltiadau Cymunedol Trwyddedu Teledu yn siarad â channoedd o sefydliadau bob blwyddyn i helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn deall pryd mae angen trwydded a sut mae talu. Yn aml, rydym yn mynychu cynadleddau, yn darparu gweithdai ac yn cynnal sesiynau holi ac ateb. Fel rhan o nodwedd reolaidd, rydym yn darparu atebion ar gyfer cwestiynau cyffredin. Oes gennych chi gwestiwn sydd angen ei ateb? Anfonwch neges e-bost at campaignoffice@tvlicensing.co.uk neu ffoniwch 020 875 26537.

Ydych chi'n darparu llenyddiaeth ar gyfer cynghorwyr mewn ieithoedd eraill?

Mae gan Trwyddedu Teledu ymrwymiad parhaus i helpu pawb, ni waeth beth yw eu hiaith neu gefndir, i ddeall y gyfraith a'r ffyrdd niferus y gallwch dalu am drwydded deledu.

I geisio gwneud yn siŵr bod gan bawb fynediad teg at wybodaeth bwysig ar drwyddedu teledu, rydym yn darparu amrywiaeth o adnoddau aml-iaith ar-lein, ar bapur a dros y ffôn. Gallwch lawrlwytho'r adnoddau ar tvlicensing.co.uk/communityinfo

Pa wybodaeth sydd ei hangen arnaf i gysylltu â Trwyddedu Teledu ar ran cleient/cwsmer?

Gall enwebai awdurdodedig weithredu ar ran y deiliad trwydded, os oes caniatâd ysgrifenedig wedi cael ei roi. Yn ogystal â hyn, gellir rhoi enwebiad dros dro gan y deiliad trwydded i ymdrin â thrafodiad unigol. Gellir rhoi'r caniatâd hwn ar lafar.

Byddai angen i'r enwebai fynd trwy broses adnabod a dilysu, a fyddai'n gofyn am y canlynol:

- Un llythyren o enw cyntaf y deiliad trwydded
- Cyfenw'r deiliad trwydded
- Llinell gyntaf y cyfeiriad
- Cod post
- Trwydded deledu neu gyfeirnod
- Dull talu

Os hoffech siarad â Trwyddedu Teledu ar ran cleient, byddem yn argymell eich bod chi'n gofyn iddyn nhw fod yn bresennol pan fyddwch yn ffonio. Mae hyn yn gwneud y broses adnabod a dilysu'n symlach a gallwn eich helpu chi'n fwy effeithlon.

Diweddariad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Trwyddedu Teledu yn parhau i wella gwybodaeth ar gyfer cwsmeriaid fel rhan o'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rhwng nawr a diwedd mis Mawrth, rydym yn bwriadu cyflawni:

- Adolygiad o dudalennau hawdd i'w darllen, a thudalen hygyrchedd gwefan Trwyddedu Teledu
- Gwelliannau i'r wefan i'w gwneud hi'n haws i fewngofnodi i drwydded ar-lein
- Adolygu arweiniad ar gyfer swyddogion ymholiadau ynghylch ymateb i bobl sy'n amlygu anabledd
- Profi gwelliannau i brosesau ad-dalu pobl dros 75 oed ac ail-ddilysu trwyddedau
- Adolygiad o'r wybodaeth yr ydym yn ei rhoi i randdeiliaid

Ffyrdd o dalu: mae sawl ffordd i dalu am drwydded deledu

Debyd Uniongyrchol

Ffoniwch 0300 790 6112 i sefydlu taliad Debyd Uniongyrchol misol, chwarterol neu flynyddol. Mae'r mwyafrif o gwsmeriaid yn defnyddio Debyd Uniongyrchol erbyn hyn ac mae nawr yn bosibl ei sefydlu ar-lein trwy fynd i tvlicensing.co.uk/payinfo.

Cerdyn Debyd a Chredyd

Ffoniwch 0300 790 6112 i dalu â cherdyn debyd neu gredyd. Mae'r cyfleuster hwn yn derbyn taliadau gan amrywiaeth o gardiau debyd, gan gynnwys Maestro/Switch a Delta. Gallwch dalu ar-lein hefyd ar tvlicensing.co.uk/payinfo.

Drwy'r Post

Anfonwch siec wedi'i gwneud yn daladwy i TV Licencing i: Customer Services, TV Licencing, Darlington, DL98 1TL

Mewn allfeydd

Gellir gwneud taliadau'n bersonol yn un o dros 24,000 o allfeydd PayPoint ledled y DU. Ewch i paypoint.co.uk/locator i ddod o hyd i'ch allfa agosaf. I ddarganfod mwy am ddefnyddio PayPoint i wneud taliadau o dan gynllun talu ag arian parod, ffoniwch 0300 555 0300.

Cerdyn Cynilo Trwyddedu Teledu

Mae Cerdyn Cynilo Trwyddedu Teledu wedi cael ei ddylunio i helpu pobl i gynilo tuag at gost eu trwydded deledu nesaf mewn symiau bach, posibl. Gall pobl dalu ar unrhyw adeg, naill ai ar-lein, drwy neges testun, mewn allfa PayPoint neu dros y ffôn. Ffoniwch 0300 555 3434 i gael mwy o wybodaeth.

Rhifau defnyddiol eraill

Rhoi gwybod am newid cyfeiriad	0300 790 6112
Ymholiadau cynllun talu arian parod	0300 790 6078
Ceisiadau am lenyddiaeth	0208 752 6537
Cyfleuster aml-iaith	0300 790 6044
Cyfleuster Minicom	0300 790 6050
Dros 75 oed ymholiadau	0300 790 6154

Follow us on Twitter

Watch us on YouTube

Listen to us on AudioBoom